<table>
<tr>
<td>Cynllunio</td>
<td>

# Wythnos 3 – 5. Ein byd, ein cyfrifoldeb?

Helo, Dosbarth Llywelyn. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw i fod iawn. Dyma weithgareddau i chi gwblhau adre yn ystod y dair wythnos nesaf. Cofiwch eich bod yn medru fy ebosto unrhywbryd- catrin.thomas@llangunnor.ysgolccc.cymru.<br>
Hefyd cofiwch am ein Dosbarth ar Hwb. Os nad ydych yn aelod eto, mae eisiau i chi ddilyn y linc yr wyf wedi danfon atoch ar eich e-bost. Ceisiwch edrych ar hwn, a'ch e-byst yn aml.<br>
Ceisiwch ddanfon eich gwaith yn ôl ataf, naill ai trwy HWB neu e-ebost.<br>
Mwynhewch!!<br>
**Hefyd, un neges bwysig, mae Speakr ar agor, mae croeso i chi ei ddefnyddio fel arfer: https://6692173.speakr.co.uk**
</td>
</tr>
<tr>
<td>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg</td>
<td>

1. Ysgrifennu araith: Chi yw Greta Thurnberg, dychmygwch eich bod wedi dod i'r ysgol. Rwyf wedi dechrau un i'ch helpu. Edrychwch ar waelod y dudalen yma.

(Write a speech. You are Greta, and you have come to Llangunnor School. Tell us about your life and beliefs. I have started to write one<br>
. See below)

<table>
<tr><td>Meini prawf – Ysgrifennu araith:</td><td></td></tr>
<tr><td>Rydw i wedi mynegi fy marn yn glir.</td><td></td></tr>
<tr><td>Rydw i wedi rhoi rhesymau a ffeithiau i gefnogi fy marn.</td><td></td></tr>
<tr><td>Rydw i wedi cynnwys cwestiynau rhethregol.</td><td></td></tr>
<tr><td>Rydw i wedi cloi'r araith drwy ddiolch am y gwrandawiad.</td><td></td></tr>
</table>

2. Crëwch ddarn o farddoniaeth sydd yn cyflythrennu. Mae'r cyfarwyddiadau i'ch helpu yn ein dosbarth ar HWB, (HWB Classes – Llywelyn 19-20) ac hefyd yn dilyn y dudalen yma.<br>
(Create a poem using alliteration. There are guidelines below and on our Hwb class – Llywelyn19-20.)

3. Yn ogystal, cofiwch y prosiect!
</td>
</tr>
<tr>
<td>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu English</td>
<td>

1. Here is another section of the book 'Greta's Story'. Please read the chapter and the information contained within the powerpoint. Write a discussion based on whether we should use aeroplanes as a means of transport. Remember to include arguments for an against. I have included a plan (after/below this table), add your own opinions and findings to this. There are also discussion connectives listed to help you.<br>
https://www.j2e.com/ysgol-gynradd-llangynnwr/CatrinT/Greta%27s+Story+2.pptx/

2. Here is a link to a National Reading Test past paper. Please complete.<br>
https://www.j2e.com/ysgol-gynradd-llangynnwr/CatrinT/year-6-2018.pdf/
</td>
</tr>
<tr>
<td>Mathemateg a Rhifedd</td>
<td>

https://www.j2e.com/ysgol-gynradd-llangynnwr/CatrinT/Maths+-+gwerth+lle.docx/

https://www.j2e.com/ysgol-gynradd-llangynnwr/CatrinT/Lluosi+a+rhannu+gyda+10.docx/

https://www.j2e.com/ysgol-gynradd-llangynnwr/CatrinT/Canrannau/

Os nad ydy'r linc yn gweithio, gludwch y cyfeiriad i mewn i'r 'browser', neu mae'r taflenni yn ein Dosbarth Hwb
</td>
</tr>
<tr>
<td>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</td>
<td>

1.<br>
http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2012-13/20032013/climate/cym/cc_primary.htm<br>
Cwblhewch y ddau weithgaredd sydd yn rhan o'r cyflwyniad yma. Dyma fy rai i.<br>
(Complete the two activities that are included in this presentation)



2. Dyma adnodd arbennig sydd yn esbonio pŵer y gwynt. Rwy'n flin ei fod yn Saesneg yn unig. Darllenwch drwy'r wybodaeth. Mae yna nifer o weithgareddau hwylus ynddo i chi i'w cwblhau wrth i chi weithio trwyddo. Mae yna weithgaredd ar waelod y dudalen i chi cwblhau ar ôl darllen y pecyn.<br>
(This is a lovely resource, providing information about wind power. Work through the activities. There is also a graph for you to complete. Information is provided at the bottom of this page)<br>
https://www.theorganicfarmshop.co.uk/downloads/BWEA_School_Pack.pdf
</td>
</tr>
<tr>
<td>Iechyd a Lles</td>
<td>

Parhawch i ddilyn Joe Wicks ar YouTube yn gwneud ei ymarferion bob bore. Ceisiwch wneud y rhain o leiaf dair gwaith yr wythnos.<br>
(Follow Joe Wicks on his YouTube channel. Try and join in at least three times a week.)

Yn Gymraeg neu'n Saesneg:<br>
1.Crëwch set o ymarferion eich hun, yn debyg i batrwm ymarferion Joe Wicks.<br>
2.Ymchwiliwch er mwyn darganfod pa gyhyrau y mae'r rhain yn defnyddio. Hoffwn weld o leia 8 ymarfer gwahanol, ee 'push ups', y planc, rhedeg yn yr unfan. Dewiswch chi sut i gofnodi'r ffeithiau yma.<br>
3.Ysgrifennwch yn fras set o gyfarwyddiadau ar gyfer bob ymarfer er mwyn esbonio i eraill sut i'w gwneud.<br>
4. Fel estyniad, gallwch greu fideo o'ch hun yn cyflawni'r ymarferion ac yn esbonio sut i'w gwneud

Devise a set of 8 exercises, similar to those used by Joe Wicks. Use your researching skills to find out the muscles used during each of these.<br>
Briefly write a set of instructions for each exercise, so that others can complete them accurately. As an extension, you could record a video of yourself completing these exercises and providing the instructions.
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Celfyddydau Mynegiannol | 1. Celf. Edrychwch ar y we i ddarganfod darn o waith gan artist sydd yn astudio Newid Hinsawdd. A fedrwch chi geisio copïo un darn o waith a chyflwyno gwybodaeth am yr artist? (Find a piece of artwork that depicts Global Warming. Try to copy the piece of work and tell me about the artist)<br>2. Gwrandewch ar gerddoriaeth Cymraeg. Mwynhewch! (Listen to Welsh music and enjoy) |
| Dyniaethau | Mae Greta yn poeni'n fawr am ein Byd. Crëwch lun yn dangos, yn ôl y Beibl, sut grëodd Duw y Byd. Hefyd, darllenwch stori'r creu crefydd gwahanol, ac eto crëwch lun sy'n adrodd y stori, ee hindw.<br>Efallai y bydd hwn yn eich helpu:<br>https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/religious-education-ks3-a-z-of-religion-and-beliefs-c-is-for-creation-stories/zvfp382<br>Greta is worried about our world. Draw a picture depicting, according to the Bible, how God created the world. Also, find out how one of the other major religions explain how the world was born. Draw a picture to demonstrate this. |

## ***Cymraeg***

1. Syniad am ddechreuad i araith Greta:

Annwyl ffrindiau,
Bore da, fy enw i yw Greta Thunberg, ac rydw i yma heddiw i'ch perswadio chi i ddod gyda fi, allan o'r ysgol yma y bore yma er mwyn protestio yn erbyn cynhesu byd-eang. Mae pawb yn gwybod bod hyn yn digwydd, ond does neb yn trio newid y sefyllfa! Mae'n warthus bod y tymheredd ar draws y byd yn cynyddu a llai o law yn disgyn mewn gwledydd sydd ei wir angen. Mae llai o law yn golygu llai o fwyd yn cael eu tyfu sydd yn mynd i'n heffeithio ni yn ofnadwy cyn bo hir.

Geirfa
Y gwir yw....
Cred rhai...
Cred eraill.....
Y ffaith yw.....
Yn fy marn i......
Rhaid cofio......
Does dim esgus.....

2.

Cerdd Cyflythrennu!

Cadi clyfar yn cyflythrennu'n ddi-stop!
Dewi dewr yn dysgu dreifo mop.
Siwan swil yn sibrwd pob gair
Bendigeidfran balch yn benthyg y pair.

Glyn y gorila yn gorwedd yn y mwd,
Ned y neidr yn 'neud mwgwd,
Pari'r pengwin yn pregethu mewn stabl,
Hari yr hipo yn hoffi llenwi tabl.

Dyma fy ymgais i. Rwyf wedi ceisio creu cerdd sydd yn cyflythrennu. Cyflythrennu yw defnyddio'r un sŵn i ddechrau geiriau. Ceisiwch ddilyn fy mhatrwm i er mwyn creu un eich hun. Sylwch ar y patrwm odli.
Rwyf wedi cynnwys rhestrau o anifeiliaid ac ansoddeiriau i'ch helpu.
Yn ogystal, mae'r wefan 'Yr Odliadur' yn gallu eich helpu i odli.

http://www.cs.ox.ac.uk/people/geraint.jones/rhydychen.org/gwasg.aredig/odliadur/



Geirfa

| | |
|---|---|
| allblyg | hoffi perfformio, hyderus |
| anghwrtais | heb fod yn gwrtais |
| amyneddgar | digon o amser i wrando ar eraill |
| annibynnol | yn hapus i wneud pethau heb gwmni eraill |
| annwyl | hoffus a charedig |
| ariangar | un sy'n caru arian |
| balch | yn meddwl ei fod yn well nag eraill |
| barus | bob amser eisiau mwy |
| bygythiol | addo drwg os na fydd rhywun yn gwneud yr hyn a ofynnir . |
| bywiog | yn sionc a heini |
| caredig | yn meddwl am eraill |
| clyfar | digon yn y pen |
| creulon | cas iawn |
| cwrtais | yn siarad ac ymddwyn yn dda |
| cyfrwys | slei |
| cynllwyngar | yn cynllunio i wneud pethau drwg |
| dewr | ddim yn ofnus |
| diamynedd | dim amynedd |
| direidus | drwg a doniol |
| doeth | call iawn |
| doniol | rhywun neu rywbeth sy'n gwneud i ni chwerthin . |
| ffyddlon | rhywun y gallwch ddibynnu arno |
| ffyrnig | gwyllt, creulon |
| gwyllt | penboeth |
| haerllug | Yn gwthio ei lwc |
| hunanol | Yn meddwl am yr hunan |
| hyderus | yn llawn ffydd y gall wneud popeth |
| mewnblyg | yn hoffi cwmni ei hunan |
| milain | arbennig o greulon |
| oriog | yn newid yr hwyl bob awr |
| swil | ofnus o eraill |
| swnllyd | llawer o sŵn |
| tawel | distaw |
| trefnus | taclus |
| twymgalon | calon gynnes |



A - arth, asyn, afanc - athletaidd, annwyl, anniben, aflonydd
B - blaidd, broga, bustach - bach, brwdfrydig, bywiog, bonheddig
C - ceffyl, carw, ci, camel, ceiliog, crwban, cadno - caredig, cryf, cyfeillga
cwrtais
Ch - chwilen, chwannen - chwareus, chwilfrydig, chwit-chwat
D - draenog, deinosor, dwrgi - drygionus, doniol, dwl, dewr
Dd
E - eliffant, epa, eidion, estrys - enfawr, egniol, eiddgar, enwog
F - fwltur - felfedaidd, fileinig, fampiraidd
Ff - ffwlbart, ffured - ffyddlon, ffantastig, ffwdanus, ffôl
G - gorila, gloyn byw, gwyfyn, gwybedyn, - gofalus, gwych, gonest, gwirion
Ng
H - hwrdd, hipopotamus, helgi - hapus, hoffus, hyderus
I - iâr (fach yr haf), igwana - iachus, ifanc, iraidd, iasol,
J - jag(i)war, jiraff, jac-y-do - jocôs, joclyd, jeliaidd
K - koala -
L - lindysyn, lyncs, leming - lwcus, lysti, lympiog
Ll - llew, llewpart, llyffant, llwynog - llwyddiannnus, llawen, llysnafeddog
M - milgi, mochyn (daear), morgrugyn, mul, mwnci - mentrus, mwyn, meddylgar
N - neidr - nerthol, nerfus, nerthol, nodedig
O - octopws, oen, orang-wtan - ofnus, oriog, ofergoelus
P - pathew, pengwin, pry copyn, pysgodyn - parchus, poblogaidd, pwysig
PH
R - racŵn, robin goch - realistig, robotaidd, radicalaidd, ryberaidd
Rh - rheinoseros - rhadlon, rhwyfus, rhyfeddol
S - siarc, sebra, sioncyn y gwair - siaradus, swnllyd, serchog, swil
T - tarw, teigr, twrci, twrch daear - tawel, twt, tlws, tyner, twymgalon
Th
U - udfil - ufudd, unigryw, uchelgeisiol
W - walabi, walrws, wombat - wylofus, wit-wat
Y - ych, ystlum, ysgyfarnog - ystwyth, ysgafn, ystyfnig, ysblennydd

## ***Literacy***

Discussion writing: Plan

| Against Aircraft Use | For Aircraft Use |
|---|---|
| Flying is the biggest contributor to our greenhouse gas footprints.<br><br>We need to halve our carbon emissions within the next 12 years to restrict warming our World 1.5 degrees this century.<br><br>A one-way flight across the Atlantic from New York City to London emits one ton of carbon dioxide per passenger. There are upward of 2,500 flights over the North Atlantic every day. | Some remote areas can only be reached via aircraft.<br><br>It is seen as a treat or a luxury only to be taken once every few years by some.<br><br>Some people have to fly for their work.<br><br>It connects families. |

Connectives to use during discussions:
Firstly,...
On one hand,...
Without doubt...
The fact is....
Some believe....
For example...
On the other hand...

Remember to include 4 paragraphs:
1 – introduction
2 – for airplane use
3- against airplane use ( On the other hand...)
4 – paragraph to conclude.

## Gwyddoniaeth

Ar ôl darllen am y Raddfa Beaufort, dyma gwybodaeth am gryfder y gwynt ar y 29ain o Ebrill, 2020 ym Maes Awyr Caerdydd. Ewch ati i greu graff llinell i ddangos y data yma:

(Create a line graph to show the strength of the wind at Cardiff Airport, on the 29'th of April)

| Amser | 00.00 | 02.00 | 04.00 | 06.00 | 08.00 | 10.00 | 12.00 | 14.00 | 16.00 | 18.00 | 20.00 | 22.00 | 00.00 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cryfder y gwynt (knots) | 3 | 4 | 4 | 10 | 12 | 13 | 20 | 18 | 12 | 8 | 15 | 14 | 13 |

http://www.greatlittleminds.com/pdfs/graph-paper-to-print/graph-paper-1cm-sq.pdf